OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1079 (Cy. 72)

# TAI, CYMRU (CYMRU) 2000

## Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *30 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 185(2) a (3), 194(6) a 198(4) o Ddeddf Tai 1996 (**1**) ac a freiniwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol bellach i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru (**2**).

### Enw, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Cymhwyster ar gyfer cymorth tai

**2.** Bydd Rheoliadau 3, 4, 5 a 6 o Reoliadau Digartrefedd (Lloegr) (**3**) yn cael effaith yng Nghymru a bydd i'r mynegiadau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hynny yr un ystyr ag a roddir iddynt gan Reoliad 2 o'r Rheoliadau hynny.

### Diddymu

**3.** Diddymir y Rheoliadau canlynol mewn perthynas â Chymru –

(a) Rheoliadau Digartrefedd 1996 (**4**);

(b) Rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) 1997(**5**);

(c) Rheoliad 3 o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) (Rhif 2) 1997 (**6**)

(**1**) 1996. p.52
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2000/701
(**4**) O.S. 1996/2754; diwygiwyd gan O.S. 1997/631 a O.S. 1997/2046.
(**5**) O.S. 1997/631.
(**6**) O.S. 1997/2046.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (**7**).

*D. Elis Thomas*

30 Mawrth 2000 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**7**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Nid yw person sy'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 yn gymwys ar gyfer cymorth tai o dan Rhan VII o Ddeddf Tai 1996 (digartrefedd) onid yw mewn dosbarth a ragnodir mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (adran 185)(2)). Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth o ran disgrifiadau eraill o bersonau sydd i'w trin at ddibenion Rhan VII fel personau o dramor nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymorth tai (adran 185(3)).

O dan adran 194 o Ddeddf Tai 1996 caiff awdurdod tai lleol roi hysbysiad ei fod yn bwriadu peidio ag arfer ei bŵ er i sicrhau llety o dan yr adran honno. Rhaid rhoi hysbysiad o'r fath ddim llai na'r cyfnod rhagnodedig cyn y diwrnod a bennir ynddo.

O dan adran 198 o Ddeddf Tai 1996 un o'r amodau dros gyfeirio achos digartrefedd i awdurdod arall yw bod y ceisydd wedi'i roi mewn llety yn ardal yr awdurdod y gwneir y cais iddo yn awr yn unol â chais blaenorol a gafodd ei wneud o fewn y cyfnod rhagnodedig i'r awdurdod arall hwnnw.

Mae Rheoliadau Digartrefedd (Lloegr) 2000 yn rhagnodi dosbarthiadau o bersonau at ddiben adran 185(2), yn gwneud darpariaeth ar gyfer disgrifiadau o bersonau at ddiben adran 185(3), yn rhagnodi'r cyfnod at ddiben adran 194 ac yn rhagnodi'r cyfnod at ddiben adran 198.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod y darpariaethau hynny yn Rheoliadau Digartrefedd (Lloegr) 2000 yn effeithiol yng Nghymru, ac mewn perthynas â Chymruyn diddymu Rheoliadau Digartrefedd 1996 a Rheoliadau a'u diwygiodd.